

## **RHESTR WIRIO NASUWT AR GYFER DEFNYDDIO A RHEOLI DULLIAU DYSGU O BELL**

Rhaid darllen y rhestr wirio hon ochr yn ochr â chanllaw NASUWT am ddysgu o bell, sydd ar gael ar: [www.nasuwat.org.uk/remoteteaching](http://www.nasuwat.org.uk/remoteteaching).

Mae'r rhestr wirio'n tynnu sylw at faterion proffesiynol ac ymarferol pwysig y mae angen i'r aelodau eu hystyried cyn iddyn nhw gymryd rhan mewn dysgu o bell, ac mae'n cynnwys cyngor penodol am ffrydio gwersi'n fyw.

### **Mae'n rhaid i'r aelodau deimlo'n fodlon:**

mai ffrydio byw yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu amcan dysgu penodol neu ystyried a fyddai dulliau dysgu o bell eraill yn fwy priodol;

nad ydyn nhw'n cael eu gorfodi i ddefnyddio ffrydio byw, ond eu bod wedi dewis y dull hwn eu hunain fel mater o ddewis proffesiynol rhydd ar sail y ffeithiau;

y bydd nifer hawdd ei rheoli o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y ffrydio byw ac na fydd y drefn hon yn creu anfantais addysgol i'r myfyrwyr hynny sy'n methu cael gafael ar y dechnoleg berthnasol;

bod y dechnoleg a ddefnyddiant yn caniatáu iddyn nhw guddio neu aflunio eu cefndir ar y sgrin;

bod trefniadau yn eu lle i atal disgyblion rhag recordio sesiynau neu dynnu sgrinluniau;

bod caniatâd ysgrifenedig eglur a gwybodus wedi'i sicrhau gan y rhieni i'w plant gymryd rhan mewn gwersi sy'n cael eu ffrydio'n fyw;

bod arweiniad clir y cytunwyd arno ar gael am gyfranogaeth y rhieni a'r rhyngweithio â rhieni yn ystod y ffrydio byw;

bod yr ysgol wedi darparu gwybodaeth i'r rhieni (sydd wedi'i chytuno gyda NASUWT) sy'n esbonio'n glir beth sy'n dderbyniol o ran ymwneud y disgyblion a'r rhieni mewn ffrydio byw, a'u hymddygiad mewn perthynas â ffrydio byw;

na fydd ffrydio byw'n cynnwys cysylltiad un-i-un gyda disgyblion;

y bydd ffrydio byw'n digwydd yn ystod yr amser hwnnw pan fyddai amseroedd sesiwn arferol y disgyblion wedi digwydd petai safle'r ysgol yn gwbl agored;

bod y disgyblion yn deall yn glir pa fath o ymddygiad a ddisgwylir ganddynt yn ystod sesiynau sy'n cael eu ffrydio'n fyw, e.e. cymryd eu tro i siarad a pheidio torri ar draws athrawon neu ddisgyblion eraill;

y bydd y dechnoleg sy'n cael ei defnyddio'n gadael i athrawon dawelu eu microffonau a microffonau'r disgyblion sy'n cymryd rhan, neu dynnu'r disgyblion o'r sesiwn;

y bydd y ffrydio byw'n digwydd drwy ddefnyddio cyfrif a gymeradwyir gan y cyflogwr yn hytrach na chyfrif personol;

bod asesiad wedi'i gwblhau o'r effaith y bydd y gwaith o baratoi deunyddiau ar gyfer ffrydio byw'n ei chael ar lwyth gwaith y staff, a bod amser gweithio wedi'i glustnodi ar gyfer paratoi deunyddiau;

na fydd y ffrydio'n creu gwaith marcio neu gynllunio gormodol na beichiau sy'n gysylltiedig ag asesu;

bod y dechnoleg ofynnol wedi cael ei chanfod a bod hyfforddiant priodol ar gael i'r staff;

nad oes gofyniad wedi'i osod ar staff i ddarparu neu brynu eu hoffer eu hunain i gefnogi ffrydio byw, a bod staff sydd efallai wedi cytuno i ddefnyddio eu hoffer eu hunain yn cael eu digolledu fel y bo'n briodol;

bod y platfform a'r fethodoleg sy'n cael eu defnyddio i ddarparu ffrydio byw wedi derbyn asesiad risg yng nghyd-destun polisiau'r ysgol am:

- ddiogelu disgyblion a staff;
- ddiogelu data; ac
- iechyd a diogelwch.

bod y cyflogwr wedi darparu canllawiau iechyd a diogelwch i'w staff sy'n cydymffurfio â'r gofynion diogelwch ynghylch defnyddio amser sgrin, gweithio o gartref a mynediad i rai sydd ag anabledd;

na fydd ffrydiau byw'n cael eu monitro i bwrpasau gwerthuso/rheoli perfformiad;

nad yw sesiynau ffrydio byw'n cael eu recordio;

nad oes unrhyw ddisgwyliad gan y cyflogwr y bydd ffrydio byw neu ddulliau eraill o ddysgu o bell yn cael eu defnyddio, pan fydd yr ysgolion yn gwbl agored, i ymestyn y ddarpariaeth ddysgu i unigolion, grwpiau neu'r holl ddisgyblion gyda'r nosau, yn ystod yr wythnos waith, ar y penwythnosau ac yn ystod cyfnodau'r gwyliau ysgol.

Os nad yw'r elfennau yn y rhestr wirio hon yn cael eu darparu ac os yw'r ysgol yn gwrthod derbyn y dulliau diogelu hyn, yna dylid cysylltu â NASUWT i gael rhagor o gyngor a chefnogaeth drwy anfon e-bost at: [advice@mail.nasuwt.org.uk](mailto:advice@mail.nasuwt.org.uk).

Cynghorir yr aelodau i ddarllen canllaw perthnasol Llywodraeth Cymru yn ofalus, a gyhoeddwyd dan y teitl 'Ffrydio byw – arferion ac egwyddorion diogelu i ymarferwyr addysg' ar: <https://hwb.gov.wales/parthau/diogelwch-ar-lein/ffrydio-byw-arferion-ac-egwyddorion-diogelu-i-ymarferwyr-addysg>.